

166)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Zoom nos Lun Ionawr 17eg 2022 —7pm

---

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies,E.Jones,M.Griffiths,H.Lewis,G.Jones,V.Davies,D.Davies,  
B.Cobain,S.Mason,M.Evans,Arwel Davies,C.Sir L.Evans

Absennol: Y.Griffiths.

Clerc:Anita Evans

Heddlu/police: PCSO Anwen Davies.

---

1)Croesawodd M.Griffiths(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod erbyn 7yh,ac hefyd Katie Williams o Broadway Broadband Cymru i drafod ymhellach am gyflwyno bandeang ffibr i'n Plwyf.

Cyn dechrau'r drafodaeth,mynegwyd ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mair Stephens,Cynghorydd Sir ers nifer o flynyddoedd,a dirprwy arweinydd Cyngor Sir Gâr.Fe fydd yn gadael bwlch mawr ar ei hôl.

Gwnaeth Katie Williams annerch y cyfarfod,a rhoi rhagor o wybodaeth am gyllido band eang ffibr i ardaloedd.Ni fyddai'r cwmni yma yn gallu dechrau tan 2023.Dywedodd E.Jones gall aelodau'r Cyngor yma roi gwybodaeth am y cwmni ar wefannau cymdeithasol—ond gwybodaeth yn unig—a fydd hyn ddim yn enw'r Cyngor.Bydd Katie Williams yn mynychu cyfarfod mis Mawrth.

M.Griffiths (chairman)welcomed all to the meeting,and also Katie Williams from Broadway Broadband Cymru.Before commencing,the chairman extended deepest sympathy to the family of C.Councillor Mair Stephens,who had served the Council over a number of years,and was the present deputy leader.She will be sorely missed.

Katie Williams gave us further information on financing fibre broadband in the area.Her company would not be able to commence work until 2023,and we are aware that other companies exist.E.Jones suggested that individual members would be able to inform the public through social media about this company,but not in the name of the Community Council.She will return in March,and she was thanked for her presence.

---

2)Datgan diddordeb—neb; no declaration of interest by Councillors.

3)Heddlu/Police: braf iawn oedd croesawu PCSO Anwen Davies i'r cyfarfod.Aethpwyd dros gwybodaeth Tachwedd a Rhagfyr oedd wedi eu e bostio;dywedodd fod yr Heddlu'n cwrdd â'r cyhoedd bnawn Gwener 21/01 rhwng 12 a 2 ym Maescader,a bydd monitro cyflymder traffig ar bwys Ysgol Cae'r Felin yn hwyrach;bydd monitro'r dug out yn y cae chwarae yn gyson yn dilyn cwynion.Dywedodd Annette Davies fod ceir swnllyd yn mynd drwy Bencader ar ôl 10 y nos,a dywedodd y Clerc fod y sefyllfa 'run peth yn New Inn.Diolchwyd i'r swyddog am ei phresenoldeb cyn iddi adael.

The chairman was pleased to welcome PCSO Anwen Davies to the meeting.The officer had e-mailed the crime data for November and December,and she outlined some of the items;the Police are meeting the public in Maescader on Friday 21/01 between 12 and 2;speed will be monitored near the school later in the afternoon;they are keeping an eye on the dug out in the playing field following complaints.Annette Davies reported noisy cars speeding through Pencader after 10 at night,and the Clerk reported the same for New Inn.The officer was thanked before leaving.

167)

4)Cofnodion mis Tachwedd- November minutes: cafwyd yn gywir/found to be correct—prop.Annette Davies,sec.V.Davies.

5)Materion y Clerc/Clerk's matters:

a)Biniau baw(C.Sir)—mae'n debyg ei bod yn bosib cael biniau baw cŵn sy'n cael eu gosod ar bolion—maent wedi eu harchebu;swyddog wedi rhoi sticeri ar rai biniau –ac mae rhagor i ddod.Dywedodd L.Evans fod rhai gyda hi hefyd.Mae'r Clerc wedi gosod 2 boster oddiwrth Cadw Cymru'n Daclus ar hysbysfyrdau.

It seems now that it is possible to access dog mess bins mounted on poles—we have been promised a few when the order arrives.Stickers have been placed on present bins by the officer from the County Council;C.C.L.Evans says that she has got some.Clerk has placed 2 posters in noticeboards from Keep Wales Tidy re dog fouling.

b)Priffyrdd/Highways—does dim rhagor o wybodaeth oddiwrth Darren King,na dim wedi gwella.Cynnigiodd E.Jones ein bod yn anfon cwyn swyddogol i adran gwynion y C.Sir,eiliodd H.Lewis ac roedd pawb yn gytun.This Council will now lodge an official complaint with Carm.Co. Council re our poor roads;E.Jones proposed and H.Lewis seconded.

c)Cofnodion is-bwyllgor cyllid/minutes of finance sub cttee\_cafwyd yn gywir/found to be correct;prop.E.Jones,sec.Annette Davies.

Passed as correct by full Council—prop.V.Davies,sec.Arwel Davies.

ch)golau Newydd ym Marshlands/new light pole---heb glywed am y dyddiad;cymdogion wedi cael llythyr—dim gwrthwynebiad/Clerk hasn't heard re date for installation;neighbours have been given letters-no objections.

d)Mynwent Troed-y rhiw-Cemetery—heb gael dyddiad cyfarfod gyda'r cyfreithwyr/no meeting date as yet.

dd)D.Davies yn dweud fod y coed wedi eu symud o'r afon ym Mhontweli/trees have been removed from the river.

e)Cyfleusterau Cyhoeddus—A.Lewis yr adeiladwr yn gobeithio dechrau ar safle Pencader wythnos nesa/hopefully the renovation work on Pencader Public Conveniences will start next week.

f)clustogau Pencader—Andrew Morgan(C.S.Gâr)yn dweud mai Adran Tony Williams fydd yn eu cywiro/the damaged speed cushions in Pencader will be repaired by Highways Dept.

ff)Tony Williams: wedi anfon atebion i'n cwynion diweddara:

i)dŵr o Bencraigwen –roedd draen wedi blocio'n ddiweddar,nawr yn glir/drain had blocked causing water to run onto main road—now cleared.

ii)New Inn—draeniau wed eu clirio/drains cleared.

iii)Gwenfro i Garej Tweli—pothole filled in. iv)tro Gwyddgrug—pothole filled in on the bend.

v)Marshlands—bin halen –gofyn i'r Adran Dai/housing dept to be requested to place salt bin in Marshlands.

---

6)Cyfrifon/financial: cafwyd yr adroddiad yn gywir/statement found to be correct—prop.Annette Davies,sec.S.Mason

Biliau i'w talu/bills to pay: cyflogau/wages Tachwedd/November:£2,372.07;Dyfed

Alarms:£43.20;Kangaloos(Tach/Nov.)£150.00;Davies IT(£30.00);Zoom Ion/Jan)£23.98);Kangaloos(Rhagfyr/Dec)

£120.00;Un LL.Cymru/One Voice Wales training--£150.00;Iwfansau Cynghorwyr/allowances:£1,440.00;

168) (6)Ariannol/financial(contd.) Eifion Williams(Cornel Chwarae):£7,890;cyfreithiwr/solicitor:£240.00;Gareth Davies (I T -scanner)£40.00. i'w talu/to be paid:prop.G.Jones;sec.H.Lewis.

D.Debit--ICO -(data protection)£35.00.Praecept wedi ei dderbyn/paid in to bank:£16,333.33

Laptop a printer: gan fod llawer o broblemau wedi bod gyda'r laptop yn ddiweddar,cynnigiodd E.Jones fod y Cyngor yn prynu un newydd a phrinter/the Clerk will look for prices for a new laptop and printer;E.Jones proposed and A.Davies seconded.All were in agreement.

7)Cynllunio/planning:Field House Pencader—dim gwrthwynebiad/no objection.

8)Gohebiaeth/Correspondence:

C.Sir Gâr/C.County Council:

i)Arolwg Etholiadol -dogfennau/gwybodaeth /Electoral Review:documents and information.

ii)gosod y Praecept 2022-23.Bydd cyfarfod o'r is-bwyllgor cyllid,cyn inni benderfynnu.Setting the Budget—the finance sub-committee will meet before final decision.

Eraill:

iii)Comisiynydd yr Heddlu—gwybodaeth am waith y 5 mlynedd nesa.Mae'r Comisiynydd wedi cynnig dod i siarad â ni,a byddwn yn ei wahodd i gyfarfod Chwefror.The Police Commissioner will be invited to join us on Zoom on the evening of our Feb.meeting.

iv)e-bostiwyd/e-mailed to Councillors: gwariant 137 Cynghorau/section 137 spending;TAN 15—planning/flooding;renumeration for members;Commissiwn Ffiniau/Boundary Commission;

v)o gofnodion Tachwedd/from AOB November:a)Y.Griffiths—nam ar olau fflachio Gwyddgrug/faulty VAS;b)H.Lewis clustogau cyflymder/bad state of speed cushions;c)D.Davies—arwydd ar lawr hewl Llanfihangel/road sign on ground;ch)Clerc -angen diolch i'r bobl fu'n dwrhau'r cafnau/Clerk will sent letters of thankd to people kind enough to water the planters last year.

vi)H.Lewis—stâd hewl heibio Rhiwlwyd yn ofnadwy/very bad state of road past Rhiwlwyd,Dolgran.

vii)Gwahoddiad oddiwrth Gyngor Bro Llanllwni i ymuno â nhw i drefnu dathliad ar gyfer y Jiwibili yn yr haf.Bu trafodaeth,a chynnigiodd E.Jones ein bod yn anfon diolch ond yn dweud y byddwn yn ymuno gyda mudiadau o fewn ein Plwyf i nodi'r dathliad.Eiliodd S.Mason.Invitation from Llanllwni C.Council to join them in arranging a celebration to note the Queen's Jubilee.E Jones proposed sending a letter of thanks,and explaining that we will support any arrangements with societies within our Parish.S.Mason seconded.

viii)M.Griffiths—arwydd Give Way troad Highway Garage ar lawr/sign on ground/14/12 wedi anfon e bost am broblem dŵr o Bencraigwen wedi ail—ddechrau/water running from vicinity of Pencraigwen onto main road.

Polisiau—mae M.Griffiths wedi diweddarau rhagor:a)model rheoliadau ariannol 2019;b)model brotocol datrysiadau lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned;c)côd ymddygiad enghreifftiol.

M.Griffiths presented the Council with more policies that he has up-dated:a)model financial regulations (Wales)2019;b)model local resolution protocol for Town and Comm.Councils;c)model code of conduct.

169)Mabwisiadwyd rhain yn swyddogol gan y Cyngor/adopted by Council—V.Davies proposed,H.Lewis seconded.

Diolch yn fawr i'n cadeirydd am ei waith caled/M.Griffiths was thanked for all this detailed work.

(8) Gohebiaeth parhâd:Correspondence contd:

ix) M.Evans am drafod lleoliad difibrillator i New Inn.Cred fod mwy o olau ar y sgwar,a byddai'n well ei gael ar bwys y blwch postio,hysbysfwrdd,ciosc ffon.Byddwn yn edrych ar y safle.We will look at the site of the noticeboard,telephone kiosk in New Inn,in order to place a defibrillator.

---

9)Gwybodaeth oddiwrth y Cynghorwyr/Information from Councillors:

a)B.Cobain—dŵr yn gollwng yn Bro'r Hen Wr/water leak at Bro'r Hen Wr,Pencader.

b)C.Sir L.Evans yn ein hatgoffa fod y C.Sir yn gosod ei cyllideb/C.C.Council—budget setting.

c)H.Lewis—golau stryd ar bwys Dolwerdd Lla'el ddim yn gweithio;Mynwent y Plwyf—concrit ar y llwybr yn torri.Faulty sreet light near Dolwerdd,Llan'el/path in Parish Cemetery is cracking.

ch)E.Jones—ffens y Fynwent hefyd angen sylw/Cemetery fence needs mending.

d)D.Davies—llawer o sbwriel yn cael ei adael tu fas y tŷ gwag ar waelod hewl Talog/rubbish dumped bottom of Talog road.

dd)G.Jones—teimlo nad yw'r system traffig ar bwys ysgol Cae'r Felin yn gweithio—ac mae ciwiau hir yn aml.Mae car du yn parcio ar y ffordd fawr rhwng garej Tweli a Gwenfro-ac yn broblem i yrrwyr/The filter arrow system near Cae'r Felin school is not working,causing long queues at times.A black car,parked on the main road between Tweli Garage and Gwenfro is causing problems for drivers.

---

Gorffenwyd 9.15/meeting ended.